# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhydypennau
# Bow Street
# Ceredigion
# SY24 5AD

## Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2011

**gan**


**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Rhydypennau ym mhentref Bow Street, rhyw bedair milltir i'r gogledd o Aberystwyth ar y brif ffordd sy'n arwain i Fachynlleth. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.

Adeg yr arolygiad, roedd 188 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr o gymharu â 192 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2005. Mae saith dosbarth yn yr ysgol yn cynnwys dosbarth meithrin, sydd â 25 disgybl ar y gofrestr. Nid oes un disgybl ar hyn o bryd sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol. Does dim disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol. Tua 19% o'r disgyblion sy'n dod o aelwydydd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.

Disgrifir yr ardal y daw'r disgyblion ohoni fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 10% o'r disgyblion yn derbyn cinio rhad ac am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dynodwyd 23% o'r disgyblion fel rhai sydd â chanddynt anghenion addysgol ychwanegol, yn cynnwys dau ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2002.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Rhydypennau yw £3,258 sy'n cymharu gydag uchafswm o £24,095 ac isafswm o £2,741 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngheredigion. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 46ed uchaf o'r 63 ysgol gynradd yng Ngheredigion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Gynradd Rhydypennau yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- y rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn dda i gymhelliant ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu;
- yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion; ac
- ethos gynhaliol ac awyrgylch gweithgar ymhob dosbarth.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Gynradd Rhydypennau yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cyfleu ei weledigaeth yn glir i'r staff a'r disgyblion;
- aelodau'r corff llywodraethol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol;
- hunan arfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol; a'r
- cyswllt naturiol rhwng deilliannau'r weithdrefn hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu bechgyn yng nghyfnod allweddol 2;

A2 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol; a

A3 datblygu ymhellach rôl y cyngor ysgol a'r cyngor eco o fewn yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau Cymraeg. Maent yn siarad yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio'r iaith ar bob achlysur. Maent yn defnyddio ffurfiau berfol cywir a phriod-ddulliau'r iaith yn effeithiol yn eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 1 yn darllen ar lefel sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu, ac yn aml yn uwch. Maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da ac mae llawer yn ysgrifennu i safon briodol.

Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dda iawn. Maent yn siarad yn hyderus ac yn darllen yn gywir gyda mynegiant priodol. Mae llawer yn ysgrifennu'n ddiddorol ac yn helaeth, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau.

Yn gyffredinol, nid yw medrau ysgrifennu'r bechgyn hŷn cystal â rhai'r merched yn y Gymraeg na'r Saesneg.

Mae medrau trawsieithu'r rhan fwyaf yn datblygu'n briodol. Mae gwybodaeth bron pob disgybl am hanes, daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth Cymru yn dda iawn.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd priodol yn y ddau gyfnod allweddol, er bod y data'n awgrymu nad yw'r disgyblion hŷn yn gwneud cystal o gymharu ag ysgolion eraill y teulu.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn ôl eu hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni'n dda.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson uchel ac yn dangos tuedd cyffredinol ar i fyny. Yn 2010, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyson yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae canran y disgyblion saith oed a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) dros y tair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg a'r Gymraeg yn gyson uwch na'r teulu a Chymru. Mewn gwyddoniaeth, mae'r canran yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ac yn debyg i ffigwr Cymru.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cyfran y disgyblion â hawl i ginio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar

gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y chwarter uchaf a'r hanner isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 hefyd yn dangos tuedd ar i fyny dros dair blynedd. Ers dwy flynedd mae'r canran a gyrhaeddodd y dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd) wedi bod yn uwch na cyfartaledd y teulu a Chymru.

Yn 2010 roedd y canran a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) y Gymraeg, y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol uwch o gymharu â chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y chwarter uchaf a'r chwarter isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol fel chwaraeon a gêmau.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae disgyblion yn foesgar a chwrtais, yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd. Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn ymateb yn dda i gymhelliant ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu.

Nid yw'r ysgol wedi cael achos i eithrio disgybl dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae canran presenoldeb dros y thri tymor diwethaf ar gyfartaledd ychydig dros 95% sy'n uwch na'r canrannau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Serch hynny, nid yw eu rolau o fewn y cynghorau wedi eu diffinio, ac o ganlyniad, nid ydynt yn medru cynnal eu cyfarfodydd yn llawn, heb gymorth oedolyn.

Mae gan y mwyafrif ymagweddau aeddfed sy'n sylfaen dda ar gyfer datblygu ymhellach eu medrau cymdeithasol a bywyd. Maent yn datblygu eu hyder drwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned ac yn genedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd a chystadlaethau chwaraeon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn dda i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn drylwyr. Mae'r medrau hyn wedi eu hymgorffori i brofiadau'r disgyblion ar draws pob pwnc a maes dysgu. O ganlyniad, mae datblygu'r medrau yn rhan amlwg o wersi yn ddyddiol. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn caniatáu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau dros eu dysgu eu hunain ym mhob dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da iawn. Darperir yn effeithiol er mwyn targedu grwpiau penodol fel disgyblion sy'n newydd i'r ysgol, lle mae'r Gymraeg yn ail iaith iddyn nhw. Rhoddir cyfleoedd ardderchog i'r disgyblion ddysgu am hanes, daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth Cymru.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol i ennyn diddordeb y disgyblion mewn cynaliadwyedd. Mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd eang. Trwy astudiaeth o wledydd eraill, a thrwy'r cyngor eco, rhoddir gyfleoedd i ddisgyblion gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni, a phrynu nwyddau masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng yr athrawon a'r staff ategol ar draws yr ysgol.

Yn yr ychydig o wersi rhagorol, ceir cyflymdra addas, tasgau diddorol a chwestiynu treiddgar. Mae disgwyliadau'r athrawon yn uchel ac fel arfer maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion ac yn eu herio. Er hynny, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

Mae ethos cefnogol ac awyrgylch gweithgar ym mhob dosbarth, lle mae pawb yn cael ei barchu. Mae enghreifftiau arbennig o dda o farcio manwl yn llyfrau'r disgyblion, sy'n ymateb yn adeiladol i'w gwaith ac yn eu helpu i ddeall sut i ddatblygu. Mae'r athrawon yn galluogi'r disgyblion yn effeithiol i adnabod targedau ar gyfer gwella.

Mae systemau asesu effeithiol gan yr ysgol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r drefn hon. Mae system dracio yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol, gan gynnwys disgyblion galluog a'r rhai sy'n debygol o dangyflawni erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn greiddiol i waith yr ysgol ac yn cael lle blaenllaw yng nghynlluniau'r athrawon. Gwneir defnydd effeithiol ohonynt er mwyn cynnal disgyblion a chodi safonau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth i les a diogelwch disgyblion. Mae ganddi weithdrefnau cynhwysfawr a chysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau arbennig fel y gwasanaethau iechyd a lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol, a'r gwasanaethau cymdeithasol. Er bod yr ysgol yn annog y disgyblion i fynegi barn ac i roi syniadau ar sut i wella'r ysgol, nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n ddigonol.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol ei holl ddisgyblion yn ddyddiol trwy feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhob gweithgarwch. Mae disgyblion yn cael eu hannog i fod yn falch o'u cymuned ac maent yn gysylltiedig â nifer o weithgareddau o fewn y gymuned honno. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu cydymdeimlad â diwylliannau eraill er mwyn deall y gwahaniaethau rhwng pobl o wahanol rannau o'r byd yn effeithiol iawn. Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u cefnogaeth sylweddol i wahanol elusennau.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae polisïau priodol yn eu lle ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn cael eu gweithredu'n llawn**.** Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi holl ddisgyblion sydd wedi cael eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi nodi disgyblion mwy abl a thalentog ac yn darparu'n briodol ar eu cyfer.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos gynhwysol yn yr ysgol. Mae'r gymuned ofalgar sy'n bodoli ymhlith y pennaeth a'r staff yn darparu cyfleoedd cyfartal i'r disgyblion i holl weithgareddau'r ysgol. Rhoddir pwyslais ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o safon uchel er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm a gwna'r ysgol ddefnydd effeithlon a phwrpasol ohonynt i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd mewnol eraill yn lliwgar, yn symbylus ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardaloedd hyn, gan gynnwys yr ardd, er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r adeilad a'r ardaloedd allanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn cyfleu ei weledigaeth yn glir i'r staff a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol. Mae'r dirprwy yn ysgwyddo ystod o gyfrifoldebau rheolaethol yn effeithiol sy'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am y cwricwlwm, a gweithredu fel cydlynydd nifer o bynciau. Mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus iawn fel tîm.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae llywodraethwyr yn barod i herio pan fo angen ac yn cyfrannu'n dda iawn i'r broses hunan arfarnu. Mae aelodau'r corff yn arsylwi gwersi, yn trafod gyda chydlynwyr, ac yn derbyn adroddiadau am berfformiad yr ysgol cyn adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r corff llawn. Maen nhw'n trafod data'n gyson, gan ystyried unrhyw dueddiadau mewn perfformiad.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth Y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn gan sicrhau adnoddau addas sy'n cael eu rheoli'n ardderchog. Mae asesu ar gyfer dysgu wedi ei wreiddio'n llwyr bellach o fewn gwersi ac yn cyfrannu at godi safonau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan reolwyr weithdrefn lwyddiannus iawn sy'n rhoi sylw penodol i bob pwnc neu agwedd dros gyfnod o dair blynedd. Rhoddir ystyriaeth i ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad o dueddiadau dros gyfnod. Rhoddir sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy arsylwadau dosbarth a sefydlwyd trefniadau priodol i ganfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron. Mae'r pennaeth hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adroddiadau monitro'r awdurdod lleol.

Mae cyswllt naturiol rhwng deilliannau'r weithdrefn hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynlluniau gwella blynyddol o ansawdd da iawn ac yn cynnwys strategaethau priodol sy'n nodi tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas. Mae cyfrifoldebau am gydlynu'r strategaethau a nodir wedi eu dyrannu'n briodol i wahanol aelodau staff ac wedi arwain at welliannau penodol mewn safonau ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r staff elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys cylch gwerthuso sy'n arwain at nodau cytûn ac yn cynnwys anghenion datblygu unigol ynghyd â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion cyfagos ac wedi datblygu rhwydweithiau effeithiol o arfer proffesiynol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn cynllunio cwricwlaidd a datblygiadau gwerthfawr yn y trefniadau ar gyfer lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn gryf ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau'r ysgol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau o fewn y pentref yn gyson, ac yn aml yn croesawu unigolion o'r gymuned i siarad â nhw yn yr ysgol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u cynefin.

Mae cyswllt agos iawn rhwng yr ysgol â'r cylch meithrin a gynhelir ar dir yr ysgol, sy'n hwyluso trefniadau derbyn disgyblion. Yn yr un modd, mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd lleol yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cynllunio adnoddau a sicrhau ansawdd asesiadau o waith disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon, gyda'r ysgol yn croesawu darpar athrawon yn rheolaidd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr a rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phenderfyniadau gwariant. Mae prosesau monitro'r gyllideb yn dda ac yn rhoi ystyriaeth berthnasol i'r adroddiadau cyllidol cyson a ddarperir gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol.

Mae trefniadau addas mewn lle ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl staff. Gwneir defnydd effeithiol o'r amser cynllunio, paratoi ac asesu sydd ar gael i'r athrawon. Defnyddir arbenigedd staff ar draws yr ysgol mewn meysydd arbennig fel addysg gorfforol a cherddoriaeth, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y meysydd hyn. Gwna'r ysgol ddefnydd ardderchog o gynorthwywyr dosbarth ac mae eu cyfraniad yn y Cyfnod Sylfaen ac wrth gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn werthfawr iawn.

O ystyried deilliannau disgyblion a'r defnydd a wneir o'r cyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron y disgyblion:**

Mae pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os ydyn nhw'n gweld y gwaith yn anodd, neu os ydyn nhw'n poeni neu'n gofidio.

Mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod llawer o gyfleoedd yno iddyn nhw wneud ymarfer corff yn rheolaidd

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod digon o adnoddau ar gael er mwyn iddyn nhw wneud eu gwaith, bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd o'r farn bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y gwersi fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith a bod bron pob un yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Holiaduron y rhieni:**

Dychwelwyd 65 o holiaduron oddi wrth rhieni.

Mae bron pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, yn honni bod eu plant yn hoffi'r ysgol, eu bod yn teimlo'n ddiogel yno, a'u bod wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yno pan ddechreuon nhw. Mae bron pob un hefyd o'r farn bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol, bod yr addysgu'n dda a bod gan y staff ddisgwyliadau uchel oddi wrth y disgyblion. Credant hefyd bod y disgyblion yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Teimla bron pob un bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, eu bod nhw, fel rhieni, yn derbyn gwybodaeth cyson am gynnydd eu plant, a bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Cred bron pob un hefyd bod yr ysgol yn trefnu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau a bod y gwaith sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae bron pob un hefyd yn teimlo bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf a'u bod yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiynau i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Maent hefyd yn teimlo bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Rees Morgan | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Tristan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Adrian Havard | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl.  Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |